OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 3223 (Cy.306)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU
GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*9 Rhagfyr 2003*
Yn dod i rym - -	*11 Rhagfyr 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 9(2) a (3) o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 11 Rhagfyr 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygio rheoliad 5A o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983

2. Yn rheoliad 5A o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(**2**) (deiliadaeth swydd aelodau), ar ôl paragraff (1), mewnosoder —

"(1A) Where —

(a) a member of an adoption panel holds office and is in his second consecutive term as a member of that panel; and

(b) his term of office is due to expire on or after 31st December 2003,

the adoption agency may extend the term of office of that member for a further period not exceeding two years.".

(**1**) 1976 p.36. Diwygiwyd adran 9(2) o Ddeddf Mabwysiadu 1976 ("Deddf 1976") gan adran 116 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a pharagraff 5(6)(a) o Atodlen 4 iddi (p.14). Mae'r pwerau yn adran 9(2) a (3) yn arferadwy gan y "Gweinidog priodol" a diffinnir ef yn adran 9(5) o Ddeddf 1976 mewn perthynas â Chymru fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mewnosodwyd adran 9(5) o Ddeddf 1976 gan adran 139(2) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a pharagraff 4(1)(b) o Atodlen 4 iddi (p.38).

(**2**) O.S. 1983/1964. Mewnosodwyd Rheoliad 5A gan gan O.S. 1997/649.